

**GRANTIAU CYFALAF TRAFNIDIAETH LEOL LLYWODRAETH CYMRU AB2020-21
FFURFLEN GAIS****CRONFA TRAFNIDIAETH LEOL, CRONFA'R RHWYDWAITH TRAFNIDIAETH LEOL, CRONFA FFYRDD CADARN A'R
GRONFA TRAWSNEWID CERBYDAU ALLYRIADAU TRA ISEL**

Bydd awdurdodau lleol yn cwblhau un ffurflen i bob cynllun. Gall cynllun gynnwys un project neu becynt o brojectau cysylltiedig

Awdurdod Lleol	Cyngor Bro Morgannwg
Enw'r Cynllun	Arddangosiadau Gwybodaeth Electronig ar Safleoedd Bysiau
Rhif Blaenoriaeth y Cynllun	2
Cynllun Cyfredol neu Newydd	Cynllun Newydd
Grant (dewiswch un)	Cronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol
Dyddiad y Cynllun	Dechrau: 01-Ebr-2020 Amcangyfrif Cwblhau 31-Maw-2020
Cyllid sydd ei angen ar gyfer 2020-21	£180,000
Enw Cyswllt Rheolwr y Project	Kyle Phillips / Andrew Eccleshare
Rhif Ffôn Cyswllt	029 20673130 / 029 20673130
E-bost Cyswllt	KWPhillips@valeofglamorgan.gov.uk / AEccleshare@valeofglamorgan.gov.uk
Awdurdodwyd gan (e.e. Pennaeth Cyllid neu Wasanaethau Trafnidiaeth)	Enw: Emma Reed Teitl y Swydd: Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth Llofnod:

DISGRIFIAD O'R CYNLLUN

Rhowch ddisgrifiad byr o'r cynllun. Os yw eich cais ar gyfer cynllun a fydd yn cymryd mwy na blwyddyn ariannol i'w gwblhau, mae angen disgrifiad o'r cynllun cyfan arnom a'r elfennau i'w cyflawni ym mhob blwyddyn ariannol. Dylai ceisiadau am becyn o gynlluniau gynnwys rhestr â chostau o'r projectau cysylltiedig yn nhrefn blaenoriaeth.

Atodwch fapiau lleoliad A4, lluniad(au) project(au) ac unrhyw wybodaeth ategol arall ar wahân.

Cyfeirnod Grid AO Prydain Fawr:

Mae'r cynllun fel y'i cynigir i ddarparu unedau arddangos electronig mewn 20 o leoliadau arhosfan bysiau ym Mro Morgannwg (h.y. Canol Tref y Barri x 7; Morrisons, Glannau Dŵr y Barri x 1; Y Ffordd at yr Orsaf, Ynys y Barri x 1; Maes Awyr Caerdydd x 1; Y Bont-faen x 2; Dinas Powys x 2; Canol Tref Penarth x 3; Cyfnewidfa Llanilltud Fawr x 1; a'r Rhws x 2).

Mae'r sefyllfa bresennol parthed darparu gwybodaeth am wasanaethau bysiau mewn safleoedd bysiau ym Mro Morgannwg yn wybodaeth ad-hoc ar bapur mewn arddulliau amrywiol, oherwydd y gadewir i'r darparwyr gwasanaethau ddiweddarau eu gwybodaeth eu hunain. Er bod cytundeb anffurfiol ar un adeg trwy SEWTA rhwng gweithredwyr i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr sy'n benodol i safleoedd bysiau, diflannodd y cytundeb hwn yn fuan ar ôl i'r Gymdeithas ddod i ben. Yn ogystal, nid oes unrhyw arddangosfeydd gwybodaeth electronig ar safleoedd bysiau yn ardal Bro Morgannwg, sydd yn ei dro yn rhoi delwedd eithaf gwael o ddarpariaeth gwasanaethau bysiau ac o drafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol.

Yn y lle cyntaf, mae'r cynllun yn cynnig darparu gwybodaeth am wasanaethau a 'amserlennir' trwy sgrin electronig, yn hytrach na gwybodaeth 'amser go iawn', ond wedi'i diogelu rhag y dyfodol er mwyn galluogi gwybodaeth amser go iawn pan fydd yn ariannol hyfyw i ddiweddarau'r system. Rhagwelir o hyd y bydd y cynllun hwn yn helpu i wella delwedd darpariaeth gwasanaethau bysiau lleol o fewn ardal yr Awdurdod yn sylweddol trwy dargedu safleoedd bysiau allweddol lle y bo'n ymarferol i osod yr unedau arddangos gwybodaeth electronig hyn.

ACHOS BUSNES Y CYNLLUN**1. ACHOS STRATEGOL**

Yr Achos dros Newid	
<p>Y Sefyllfa a Materion Presennol ac yn y Dyfodol Beth yw'r materion lleol ac ehangach y bydd y cynllun hwn yn mynd i'r afael â nhw yn y tymor byr a hir? Dylid cynnwys data gwaelodlin lle mae ar gael. Beth fydd yn digwydd os na chymerir camau gweithredu?</p>	<p>Mae'r sefyllfa bresennol parthed darparu gwybodaeth am wasanaethau bysiau mewn safleoedd bysiau ym Mro Morgannwg yn wybodaeth ad-hoc ar bapur mewn arddulliau amrywiol, oherwydd y gadewir i'r darparwyr gwasanaethau ddiweddarau eu gwybodaeth eu hunain. Er bod cytundeb anffurfiol ar un adeg trwy SEWTA rhwng gweithredwyr i ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr sy'n benodol i safleoedd bysiau, diflannodd y cytundeb hwn yn fuan ar ôl i'r Gymdeithas ddod i ben. Yn ogystal, nid oes unrhyw sgrinau gwybodaeth electronig ar safleoedd bysiau yn ardal Bro Morgannwg, sydd yn ei dro yn rhoi delwedd eithaf gwael o ddarpariaeth gwasanaethau bysiau a thrafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol.</p> <p>Yn y lle cyntaf, mae'r cynllun yn cynnig darparu gwybodaeth am wasanaethau a 'amserlennir' trwy sgrinau electronig, yn hytrach na gwybodaeth 'amser go iawn', ond yn addas i'r dyfodol er mwyn galludangos gwybodaeth am amseroedd go iawn pan fydd yn ariannol ddichonadwy i ddiweddarau'r system. Rhagwelir o hyd y bydd y cynllun hwn yn helpu i wella delwedd darpariaeth gwasanaethau bysiau lleol o fewn ardal yr Awdurdod yn sylweddol trwy dargedu safleoedd bysiau allweddol lle y bo'n ymarferol i osod yr unedau arddangos gwybodaeth electronig hyn.</p>

<p>Amcanion y Cynllun Beth yw amcanion y cynllun? (Dylai fod hyd at 5 neu 6 amcan a dylent ddilyn y canllawiau CAMPUS - Cyrraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.)</p>	<p>Amcanion y Cynllun yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu tua 20 uned arddangos gwybodaeth electronig mewn 20 o leoliadau safleoedd bysiau ym Mro Morgannwg, a fydd yn y lle cyntaf yn arddangos gwybodaeth am wasanaethau a 'amserlennir' sy'n benodol i safleoedd bysiau. • Gwella darpariaeth gwybodaeth am wasanaethau sy'n benodol ar gyfer safleoedd bysiau i deithwyr sy'n defnyddio'r safleoedd bysiau lle caiff yr unedau arddangos hyn eu lleoli.
<p>Canlyniadau'r cynllun Beth yw'r canlyniadau penodol y bydd y cynllun yn eu cyflawni?</p>	<p>Canlyniad y cynllun yw darparu unedau arddangos gwybodaeth electronig newydd mewn 20 o leoliadau safleoedd bysiau allweddol ym Mro Morgannwg.</p>
<p>Cyd-fynd â Pholisïau a Chynlluniau Nodwch ym mha le y mae'r cynllun hwn yn cyd-fynd â pholisïau a chynlluniau lleol megis yr Asesiad Llesiant Lleol, y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ac unrhyw bolisïau a chynlluniau cysylltiedig eraill.</p>	<p>Mae'r cynnig hwn yn cyd-fynd gyda'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hyrwyddo teithio cynaliadwy; • gwella mynediad i bawb at bob cyfle cyflogaeth, at wasanaethau, at ofal iechyd, addysg, twristiaeth a hamdden; • helpu i wella delwedd, ansawdd, effeithlonrwydd a dibynadwyedd y system drafnidiaeth; • gwella'r cyfnewid o fewn a rhwng moddau trafndiaeth. • helpu i gynyddu cyfraddau teithiau a wneir trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus; a • helpu i hyrwyddo cynhwysiant a chydarddoldeb cymdeithasol; a darparu system trafndiaeth sy'n annog ffyrdd o fyw sy'n iach ac yn actif.

Cynnwys ac Ymgynghori â'r Gymuned

Rhowch grynodedb o sut rydych wedi ymgysylltu â chymunedau lleol ac ymgynghori ar eich cynigion. Sut rydych chi wedi cynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig? Sut mae'r broses hon wedi llywio dyluniad y cynllun?

- Mae'r Cyngor yn cyfarfod yn rheolaidd â Grŵp Trafnidiaeth Fforwm 50+ Bro Morgannwg;
- Yn cyfranogi ym mhob digwyddiad 'Mae Eich Bws yn Bwysig' a drefnir gan Ddefnyddwyr Bysiau Cymru ym Mro Morgannwg sy'n hygyrch i bawb allu mynychu.
- Yn ymgymryd ag arolygon boddhad ar-lein rheolaidd parthed trafndiaeth gyhoeddus, sydd yn ei dro yn bwydo data dangosyddion perfformiad Meincnodi Cymru.

Mae'r cynllun yn dilyn ceisiadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau bysiau lleol.

Cyd-fynd ag Amcanion Grant

Nodwch isod sut mae eich cynllun yn cyfrannu at yr amcanion grant perthnasol. Dylech ond llenwi'r rhan am y grant rydych yn gwneud cais amdano a gadael y llall yn wag.


Enw'r Grant	Amcanion y Grant	Cyfraniad y Cynllun
Cronfa Trafnidiaeth Leol	<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi blaenoriaethau economaidd LIC ar gyfer swyddi a thwf, yn enwedig ar gyfer Dinas-ranbarthau, Ardaloedd Menter Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ardaloedd twf lleol ac ardaloedd adfywio • Lleihau diffyg gweithgaredd economaidd drwy ddarparu mynediad diogel a fforddiadwy i safleoedd cyflogaeth • Gwella ansawdd bywyd, yn enwedig i'r rhai sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig a gwledig, drwy ddarparu trafndiaeth ddiogel a hawdd ei defnyddio i gyfleusterau a gwasanaethau allweddol • Cysylltu cymunedau a galluogi mynediad at wasanaethau allweddol 	dd/b
Cronfa'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella dibynadwyedd amserau teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus • Lleihau amserau teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus • Cysylltu cymunedau a galluogi mynediad at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau allweddol 	<p>Nod y cais hwn yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • helpu defnyddwyr bysiau i gael gwybodaeth amserol a diweddar ar wasanaethau a 'amserlennir' sy'n benodol i safleoedd bysiau; • helpu trigolion ac ymwelwyr i gael mynediad at ddarpariaeth gwasanaethau bysiau lleol ac annog ei defnyddio; • helpu i wella delwedd gyffredinol darpariaeth gwasanaethau bysiau lleol yn yr ardal a thrafnidiaeth leol yn gyffredinol.

		<ul style="list-style-type: none"> • annog a hwyluso teithiau teithio llesol dros bellteroedd byr fel mwy o deithiau cerdded byr i bwyntiau deillio a chyrchfan y daith ar y bys ac yn ôl. • Cynyddu teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus
Cronfa Ffyrdd Cadarn	<ul style="list-style-type: none"> • Mynd i'r afael â tharfau ar y rhwydwaith priffyrdd o achos tywydd garw • Gwella perfformiad y rhwydwaith priffyrdd trwy wella dibynadwyedd teithiau ac amserau teithiau i annog pobl i newid i drafnidiaeth gynaliadwy. 	dd/b
Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Tra Isel	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu seilwaith codi tâl ar gyfer taccis a cherbydau llogi preifat • Mannau gwefru cerbydau trydan – yn benodol mewn ardaloedd trefol lle mae modd cefnogi amrywiaeth eang o anghenion gwefru cerbydau trydan • Darparu Fflyd Gwyrdd 	dd/b

2. ACHOS TRAFNIDIAETH

Cyfraniad at Nodau Llesiant

Rhaid i gynlluniau trafndiaeth geisio sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau llesiant. Rhowch grynodeb o effeithiau'r cynllun ar y nodau llesiant. Dylai hyn gael ei lywio gan asesiadau effaith statudol ac anstatudol y cynllun.



Nod Llesiant	Effaith (dewiswch un ar gyfer pob nod)
Cymru lewyrchus	Cadarnhaol
Cymru gydnerth	Cadarnhaol
Cymru iachach	Cadarnhaol
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cadarnhaol
Cymru o gymunedau cydlynus	Cadarnhaol
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cadarnhaol
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Cadarnhaol

Gwerth am Arian

Esboniwch pa gamau a gymerwyd i sicrhau y cadwyd prisiau mor isel â phosibl ac i fesur a fydd y cyllid y gofynnwyd amdano yn rhoi gwerth am arian. Dylid cynnwys y Gymhareb Buddion/Cost (CBC) os yw'n hysbys:

Caiff y cynllun ei reoli gan gyflenwr allanol yn dilyn tendr agored trwy GwerthwchiGymru er mwyn cyflenwi a gosod yr offer ayyb.

Cafwyd rhai dyfynbrisiau dangosol o flaen llaw gan 2 gyflenwr â diddordeb, sydd wedi cael eu defnyddio i feintoli'r cyllid sydd ei angen.

Asesiad o'r Effaith

Darparwch grynodedb o effeithiau'r cynllun a ddisgwylir, ar bwy yr effeithir, sut, a thystiolaeth ategol ansoddol/meintiol allweddol. Dylid ystyried yr effeithiau a nodir isod bob amser, ond nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol a gall effeithiau eraill fod yn berthnasol. Gall effeithiau fod yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral, a dylent ystyried pob defnyddiwr gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig.

Nod Llesiant	Effeithiau	Sut mae'r cynllun yn lleihau effeithiau negyddol ac yn gwneud y mwyaf o effeithiau cadarnhaol?
Cymru lewyrchus <i>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod y cyfyngiadau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr</i>	<ul style="list-style-type: none"> Newidiadau mewn cynhyrchiant: argaeledd gweithlu addas ar gyfer cyflogwyr, a newidiadau mewn effeithiau cydgrynhoi. Costau trafndiaeth: costau ariannol a delir gan y rhai sy'n teithio e.e. costau gweithredu cerbydau, tollau, a ffioedd trafndiaeth gyhoeddus. Damweiniau: cost damweiniau. Tir: a yw'r cynllun yn lleihau maint y tir amaethyddol? A yw'n agor safleoedd datblygu? 	Bydd y cynllun arfaethedig yn: <ul style="list-style-type: none"> Helpu i leihau costau llafur yr eir iddynt ar hyn o bryd gan ddarparwyr gwasanaethau wrth ddiweddarau gwybodaeth am amserlenni yn yr arosfannau i'w cynnwys. Helpu i leihau costau yr eir iddynt gan ddarparwyr gwasanaethau, efallai y caiff gorbenion eu lleihau wrth i'r cynllun gael ei gyflwyno ymhellach yn raddol dros y blynyddoedd i ddod, a gaiff o bosib yn ei dro ei drosglwyddo i gwsmeriaid ar ffurf tocynnau rhatach.

<p><i>hinsawdd), ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a grëir trwy sicrhau gwaith boddhaol.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Costau cyfalaf: i'r sector cyhoeddus, i'r sector preifat o'r cynllun ei hun ac o'r effeithiau • Costau reffeniw: i'r sector cyhoeddus, i'r sector preifat, ac i ddefnyddwyr y cynllun ei hun ac o'r effeithiau • Newidiadau i'r amser teithio: ar draws pob dull yr effeithir arno ar gyfer defnyddwyr y cynllun a rhai nad ydynt yn ei ddefnyddio. • Newidiadau i ddibynadwyedd amser teithiau: newidiadau yn amrywiad amserau teithio rhwng adegau'r dydd a rhwng teithiau a wneir ar yr un pryd bob dydd. • Economi leol: sut mae'r cynllun yn effeithio ar y sectorau yn yr economi leol? • Mynediad at wasanaethau: effaith ar deithiau i wasanaethau allweddol fel cyfleusterau iechyd, ysgolion • Mynediad at gyflogaeth: nifer y swyddi mae pobl yn gallu eu cyrraedd a beth yw'r amser teithio 	<ul style="list-style-type: none"> • Helpu i roi gwybodaeth amserlen gwell i'r cyhoedd, mae'n bosib y gellir gwireddu newid moddol, sydd yn ei dro yn helpu tagfeydd a'r effeithiau negyddol y mae hyn yn ei gael ar yr amgylchedd a'r economi. • Lleoli'r arddangosfeydd mewn safleoedd bysiau strategol allweddol, sydd yn eu tro yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau bysiau lleol sy'n gwasanaethu lleoedd cyflogaeth, iechyd, addysg a manwerthu.
<p>Cymru gydnerth <i>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sŵn: a oes unrhyw un yn profi newid mewn lefelau sŵn • Bioamrywiaeth: a oes effaith ar fywyd gwylt a nifer y rhywogaethau • Amgylchedd dŵr: a oes effaith ar gyrsiau dŵr • Gwerthoedd opsiynau a dim defnydd: a yw'r cynllun yn darparu dewisiadau amgen ar gyfer teithiau cyfredol ac a yw'n newid gwydnwch y system drafndiaeth 	<p>Nid oes unrhyw effaith negyddol annerbyniol parthed y cynnig hwn ar lefelau sŵn, bioamrywiaeth na'r amgylchedd dŵr.</p> <p>Caiff unedau arddangos eu cyflenwi naill ai gan drydan o'r prif gyflenwad neu gan ynni'r haul.</p> <p>Bydd y cynllun arfaethedig hefyd yn helpu wrth ddarparu gwybodaeth trwy'r unedau arddangos parthed newidiadau i'r gwasanaethau argyfwng (e.e. oherwydd digwyddiad ar y ffordd) gan y darparwr gwasanaethau.</p>
<p>Cymru iachach <i>Cymdeithas sy'n gwneud y gorau o lesiant corfforol a meddyliol pobl ac sy'n deall pa</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithgarwch corfforol: maint y cerdded, beicio ac ymarfer corff arall a wneir gan bobl. • Damweiniau: nifer a difrifoldeb anafiadau • Diogelwch: pa mor ddiogel mae pobl yn teimlo 	<p>Bydd buddsoddi mewn darparu gwasanaeth mewn safleoedd bysiau strategol allweddol ym Mro Morgannwg yn helpu i annog newid moddol o deithiau car i'r bws, a thrwy hynny'n lleihau lefelau llygredd lleol a gwella ansawdd yr aer yn lleol. Bydd newid moddol</p>

<p><i>ddewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i'w hiechyd yn y dyfodol.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ansawdd teithio: er enghraifft, pa mor gyfforddus yw'r cerbyd a hygyrchedd gwybodaeth • Ansawdd aer: a oes newidiadau yn ansawdd yr aer • Asesiad o'r Effaith ar Iechyd 	<p>cyfatebol o ddefnyddio ceir i ddefnyddio bysiau, a lleihau maint traffig, hefyd yn annog ac yn hwyluso teithiau teithio llesol dros bellteroedd byr fel mwy o deithiau cerdded yno ac yn ôl i fannau cychwyn a chyrchfannau teithiau bws.</p> <p>Bydd darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am amserlenni trwy sgrinau electronig yn gwella hyder cwsmeriaid yn y wybodaeth sydd ar gael wrth y safle bysiau.</p>
<p>Cymru fwy cyfartal <i>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i wireddu eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Fforddiadwyedd: a oes unrhyw newid i'r costau teithio sy'n cael eu talu gan ddefnyddwyr • Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol 	<p>Ni fydd unrhyw effaith negyddol parthed y costau/tocynnau teithio presennol yr eir iddynt gan ddefnyddwyr bysiau lleol; fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd ei gyflwyno'n raddol yn y blynyddoedd i ddod yn helpu gyda chostau staff o ran gorfod mynd i ddiweddarau gwybodaeth sy'n benodol i safleoedd bysiau, a fydd o bosibl yn ei dros yn helpu i leihau gorbenion darparwyr gwasanaethau a phrisiau tocynnau hefyd.</p> <p>Bydd yr holl wybodaeth a gaiff ei darparu gan ddefnyddio'r sgrinau yn ddwyieithog.</p>
<p>Cymru o gymunedau cydlynus <i>Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel a chydgyssylltiedig.</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwahanu: a yw unrhyw grwpiau o bobl yn cael eu gwahanu oddi wrth eraill neu gyfleusterau maent yn eu defnyddio'n rheolaidd • Asesiad o'r effaith wledig 	<p>Gall mynediad at wybodaeth ddibynadwy, ddiweddar fod yn rhwystr i bawb parthed cael mynediad at wasanaethau bysiau lleol.</p> <p>Cynigir bod safleoedd bysiau strategol allweddol yn nhrefi mwy gwledig Bro Morgannwg yn cael eu cynnwys yn y cynllun (h.y. Y Bont-faen a Llanilltud Fawr).</p>
<p>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu <i>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth ac iaith Cymru, ac</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> • Tirwedd: a oes effaith weledol neu arall ar y dirwedd • Treflun: a oes effaith weledol neu arall ar y treflun • Amgylchedd hanesyddol: a oes unrhyw newidiadau mewn ardaloedd o ddiddordeb hanesyddol • Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg 	<p>Ni ddylai unrhyw effaith weledol fawr ar y dirwedd neu ar y treflun, oherwydd bod y sgrinau electronig yn debygol o gael eu lleoli mewn cysgodfeydd bysiau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, bydd yr unedau arddangos yn fwy gweledol ddeniadol ac yn haws eu darllen a'u deall ar gyfer cwsmeriaid.</p>

<p><i>sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a hamdden.</i></p>		<p>Bydd yr holl wybodaeth a gaiff ei darparu gan ddefnyddio'r sgrinâu yn ddwyieithog.</p>
<p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang <i>Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a fydd gwneud y fath beth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, y newid yn yr hinsawdd).</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> Nwyon tŷ gwydr: a oes newid o ran swm y nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu hallyrru 	<p>Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol, ac eithrio, drwy annog symud moddol o geir preifat i wasanaethau bysiau lleol, y gellir helpu i leihau allyriadau carbon.</p>

3. ACHOS RHEOLI

A ellir cyflawni'r cynllun? Beth yw'r risgiau?

Rhaid darparu cynllun project sy'n nodi amserlenni ar gyfer gweithgareddau a cherrig milltir allweddol ar gyfer pob cynllun sy'n briodol i'r raddfa, y cymhlethdod a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Pan fo cyfnodau allweddol/cerrig milltir wedi'u cyrraedd/cwblhau, nodwch y dyddiad lle bo'n berthnasol. Dylid darparu o leiaf y canlynol lle maen nhw'n berthnasol i'r cynllun: gwybodaeth am y dyluniad; amseru prosesau statudol/caniatâd cynllunio; caffael tir; caffael; adeiladu; ac agor a chwblhau'r cynllun.

Rhaid cynnwys gwybodaeth am risgiau i fesurau cyflawni a lliniaru sydd ar waith neu yn yr arfaeth.

Er bod nifer o safleoedd bysiau ym Mro Morgannwg a fyddai'n elwa ar unedau arddangos electronig, mae'r cais hwn yn canolbwyntio ar safleoedd bysiau strategol allweddol.

Caiff y gwaith ei reoli gan dîm Dylunio ac Adeiladu'r Cyngor lle y bydd angen cyflenwadau trydanol, ond ymgwymerir â chyflenwi a gosod yr unedau gan y cyflenwr llwyddiannus yn dilyn tendr agored.

Cynllun y Project (amcangyfrif)

- Ch1/Ch2 (2020-21) = Ymarfer caffael
- Ch3/Ch4 (2020/21) = Rheoli Projectau/Contractau
- Ch3/Ch4 (2020-21) = Goruchwylio, adeiladu a gosod safleoedd, monitro

Noder:

- Mae'r amserlenni uchod yn dibynnu ar bryd/os bydd cyllid ar gael.
- Mae'n bosibl y bydd tywydd gwael yn oedi neu'n ymestyn adeiladu/gosod ac mae'n bosibl na chaiff y cynllun ei gwblhau o fewn yr amserlen arfaethedig. Bydd yn Cyngor yn sicrhau bod digon o fesurau wrth gefn yn cael eu hadeiladu i mewn i'r dyddiad dechrau y cytunwyd arno.
- Gellir codi gwrthwynebiadau a allai arwain at oedi wrth osod yr unedau newydd.
- Mae'n bosibl y bydd yr effaith ar ecoleg leol yn ystod gwaith adeiladu neu ail-osod wyneb ffordd yn niweidiol i gynefinoedd lleol a'r system ddraenio. Caiff hyn ei gymryd i ystyriaeth fel rhan o ddyluniad manwl y cynllun hwn.
- Efallai y bydd oedi ar gyflenwi'r unedau electronig gan gyflenwr allanol.

4. ACHOS ARIANNOL**Proffil gwariant ariannol**

£000oedd, prisiau Alldro (gros y grant/cyfraniadau a ddangosir ar wahân isod)

	Cyn 2020/21	2020/21 rhagamcanol	2021/22	2022/23	2023/24	Yn ddiweddarach	Cyfanswm
Arolygon							
Dyluniad		1,000 (caffael)					
Prynu Tir							
Gwaith ar Lety		2,000					
Adeiladu		172,000					
Rheoli Projectau							
Monitro a Gwerthuso		5,000					
Hyrwyddo							
CYFANSWM GROS		180,000					
Swm yr arian cyfatebol, y cyfraniad canrannol a'r ffynhonnell(au) ariannu (<i>nodwch enw'r sefydliad</i>)							
CYFANSWM NET		180,000					

Proffil Gwariant Chwarterol

(Dylid cynllunio gwariant mor gynnar â phosibl yn y flwyddyn ariannol i sicrhau hyder mewn gwariant llawn. Dylai gwariant a gynllunnir ar gyfer chwarter 4 gael ei gyfyngu i leihau'r risg o danwario)

	Gwariant Rhagamcanol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2020-21 (mewn £000oedd)			
	Chwarter 1	Chwarter 2	Chwarter 3	Chwarter 4
Arolygon				
Dyluniad	500 (caffael)	500 (caffael)		
Prynu Tir				
Gwaith ar Lety			1,000	1,000
Adeiladu			86,000	86,000
Rheoli Projectau				
Monitro a Gwerthuso			2,500	2,500
Hyrwyddo				
CYFANSWM GROS	500	500	89,500	89,500
Swm yr arian cyfatebol, y cyfraniad canrannol a'r ffynhonnell(au) ariannu <i>(nodwch enw'r sefydliad)</i>				
CYFANSWM NET	500	500	89,500	89,500

5. ACHOS MASNACHOL

Sut caiff y cynllun ei gaffael? Beth yw nifer a phrofiad y cyflenwyr tebygol? Beth yw'r trefniadau cytundebol allweddol; beth yw hyd y contract?

Caiff y cynllun ei gaffael trwy dendr agored trwy'r porth caffael GwerthwchiGymru.

Bydd y trefniadau cytundebol yn ei gwneud yn ofynnol i'r canlynol gael eu cyflenwi gan y cyflenwr llwyddiannus:-

- gosod caledwedd yn llawn mewn cysgodfeydd bysiau dethol, polyn baner safleoedd bysiau neu bolion lamp cyfagos;
- gosod a sefydlu meddalwedd yn llawn; a
- gweithredu trwydded(au) a chytuned(au) systemau'r swyddfa gefn.

MONITRO A GWERTHUSO

A oes cynllun monitro a gwerthuso wedi'i baratoi?

Os oes, rhowch fanylion isod neu atodwch ddogfennau perthnasol fel tystiolaeth. Beth yw'r data sylfaenol a'r targedau perthnasol?

Gwneir y gwaith monitro yn y ffyrdd canlynol os bydd y cais hwn yn llwyddiannus:-

1. Ceir niferoedd teithwyr sy'n defnyddio pob safle bysiau cyn gosod yr arddangosfeydd ar gyfer amserau/dyddiad penodol (2020).
2. Cael niferoedd y teithwyr sy'n defnyddio pob safle bysiau wedi gosod yr unedau ar gyfer amserau/dyddiadau penodol (e.e. yr un dyddiad ac amseroedd ond yn 2022 ar ôl cwblhau'r gwaith).
3. Caiff adborth am osod yr unedau electronig yn y safleoedd bysiau ei sicrhau gan ddefnyddwyr wrth ymgymryd â'r arolwg uchod yn 2022 ar ôl cwblhau'r gwaith. Targed o 90% naill ai'n fodlon neu'n fodlon iawn ar yr unedau arddangos electronig.

A oes unrhyw waith monitro neu werthuso eisoes wedi'i wneud?

Os oes, rhowch fanylion isod ac atodwch ddogfennau perthnasol i'r cais hwn fel tystiolaeth.

Ddim hyd yn hyn adeg cyflwyno'r cais. Cymerwyd penderfyniad bwrdd gwaith ar sail y wybodaeth am yr ardal ac am safleoedd bysiau allweddol ym Mro Morgannwg.